# JONES, JOHN BOWEN (1829 - 1905), gweinidog Annibynnol

**Enw:** John Bowen Jones
**Dyddiad geni:** 1829
**Dyddiad marw:** 1905
**Plentyn:** Ivor Bowen
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Annibynnol
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** John Dyfnallt Owen

Ganwyd 10 Chwefror 1829 yn Blaenborthyn, Llanwenog, Sir Aberteifi. Addysgwyd ef yn ysgolion lleol Capel Dewi a Waunifor ac yn ysgol ramadeg Llandysul. Cafodd gwrs disglair yng Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin, 1846-51; yr oedd yn un o'r rhai cyntaf yng Nghymru i raddio yn B.A., Llundain (1850). Bu am flwyddyn ychwanegol yn y coleg yn astudio diwinyddiaeth.

Dechreuodd bregethu yn 1847 yn Brynteg, lle yr oedd yn aelod, ordeiniwyd ef yn Awst 1851, a bu'n weinidog Hermon (Llansadwrn) a Tabor (Llanwrda), 1851-9, Penybont-ar-Ogwr, 1859-74, Coety, 1863-74, a'r Plough (Aberhonddu), 1874-1903. Cadwai ysgol baratoi pregethwyr ym Mhenybont-ar-Ogwr ac Aberhonddu.

Bu'n llywydd yr Undeb (1894); yr oedd yn un o gychwynwyr *Y Beirniad* (1850-79), a bu'n golygu *Y Cennad Hedd* (1866-1903) a'r *Beirniad* (1875-9). Cyhoeddodd *Y Blodeuglwm*, 1876, a golygodd *Casgliad o Hen Emynau* (1877 a 1883). Cyfrannodd gymaint â neb yn ei oes i gylchgronau Cymreig ei gyfnod. Yr oedd yn bregethwr galluog a gwreiddiol, o deithi athronyddol, ac yn ysgolhaig rhagorol.

Bu farw 10 Rhagfyr 1905. Mab iddo oedd y barnwr Ivor Bowen.

## Awdur

**Y Parchedig John Dyfnallt Owen**, (1873 - 1956)

## Ffynonellau


*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, ii, 200, 213; iii, 561, 574; v, 162, 395

John Bowen Jones (gol.), *Hen emynau* (1877, 1883), i-78

*NLW MS* 10327


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738092


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu